Annwyl Gwsmer

**Newidiadau Gwasanaeth i Wasanaeth Allgymorth Talsarnau**
**Newidiadau i Wasanaeth Allgymorth Symudol Cricieth**
**Yn cael effaith ar Gellilydan, Clynnog Fawr, Garndolbenmaen, Efailnewydd, Llanaelhaearn, Bryncir, Llithfaen, Pant-glas, Ffordd Aber-erch, Minffordd, Borth-y-gest, Nasareth, Llanfrothen, Y Fron, Rhosgadfan, Llangybi, Tal-y-sarn, Edern, Gwasanaethau Symudol Ffestiniog a Gwasanaethau Allgymorth Gwesteiol ym Morfa Bychan, Sarn, Llanfair, Chwilog, Llanbedr, Trawsfynydd.**

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi ein bod yn newid y gwasanaeth Gwesteiol yn Nhalsarnau i wasanaeth Symudol a chaiff ei redeg o'r tu allan i'w leoliad cyfredol yn Neuadd y Pentref Talsarnau, LL47 6TA. Bydd y gwasanaeth yn cau ddydd Llun 27 Ionawr 2025 ac yn ailagor ddydd Llun 3 Chwefror 2025 fel rhan o wasanaeth Symudol Betws-y-coed.

Yn dilyn ymddiswyddiad y Postfeistr o Swyddfa Bost Cricieth a oedd yn darparu'r gwasanaethau Swyddfa'r Post hyn, mae Swyddfa'r Post wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith i wneud yn siŵr ei fod yn dal i ateb gofynion newidiol y cwsmeriaid mewn hinsawdd economaidd heriol dros ben. Bu'r adolygiad hwn yn archwilio'r rhwydwaith ar lefel leol, yn fanwl iawn, gan ddadansoddi galw cwsmeriaid a hygyrchedd cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Cafodd y canlyniadau eu hystyried wrth i ni baratoi cynlluniau ar gyfer y Rhwydwaith a gwneud yn siŵr fod ein cyllid ac adnoddau yn cael eu defnyddio i roi'r budd gorau posibl i'n holl gwsmeriaid. Ar hyn o bryd, felly, nid ydym yn bwriadu adfer y gwasanaethau yn Efailnewydd, Llanaelhaearn, Bryncir, Llithfaen, Pant-glas, Ffordd Aber-erch, Minffordd, Borth-y-gest, Nasareth, Llanfrothen, Y Fron, Rhosgadfan, Llangybi, Tal-y-sarn, Edern a Ffestiniog, Chwilog, Morfa Bychan, Sarn, Llanfair a Llanbedr. Bydd y gwasanaethau hyn yn cau ddydd Llun 27 Ionawr 2025. Mae'n ddrwg gennyf am yr hysbysiad hwyr hwn.

Rydym yn ymddiheuro am yr anhwylustod y gallai'r cau ei achosi a gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn unrhyw gangen sydd yn gyfleus. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

**Isod, fe welwch fanylion canghennau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal:**
Swyddfa Bost Pwllheli, 6 Ffordd Caerdydd Isaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5BY
Traeth y De, Siop C, Traeth y De, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AD
Swyddfa Bost Trefor, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5LW
Swyddfa Bost Pen-y-groes, 3-5 Y Stryd Fawr, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6PL
Swyddfa Bost Penrhyndeudraeth, Stryd yr Eglwys, Penrhyndeudraeth, LL48 6AD
Swyddfa Bost Porthmadog, Bank Place, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AD
Swyddfa Bost Tremadog, 13-15 Sgwâr y Farchnad, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RB

Byddwn yn gosod posteri yn lleol i roi gwybodaeth i gwsmeriaid am y newidiadau. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.
Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod.

Bydd y gwasanaeth yn Nhrawsfynydd yn cael ei ddarparu gan y postfeistr o Swyddfa Bost Betws-y-coed ar 3 Chwefror. Bydd yn yr un lleoliad ac ni fydd newid yn yr oriau agor. Bydd gwasanaethau Symudol Clynnog Fawr, Garndolbenmaen a Gellilydan yn cau dros dro ar 27 Ionawr 2025 ac yn cael eu trosglwyddo i wasanaeth Symudol Betws-y-coed. Bydd y gwasanaethau hyn yn ailagor ar 3 Chwefror yn yr un lleoliadau. Bydd eu horiau agor yn newid, fel y nodir isod.

Rydym yn awyddus i gyflwyno'r gwasanaeth Symudol yn Nhalsarnau cyn gynted â phosibl, ac felly rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid yn Nhalsarnau, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor addas, yn eich barn chi, yw'r lleoliad a pha mor hawdd yw cyrraedd yno?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am y diwrnod a'r oriau agor arfaethedig?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan 11 Chwefror 2025. Ni fyddwn yn rhoi ymateb yn unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Mae'r manylion am y gwasanaeth Symudol hwn ar ddiwedd y llythyr hwn. I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu'ch sylwadau, byddwch cystal â mynd i'n Canolfan Ymgynghori trwy postofficeviews.co.uk. Yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgysylltiad ar gyfer y gwasanaeth hwn, naill ai drwy enw'r gwasanaeth, y côd post neu'r côd unigryw **279222**

Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod poster yn lleol a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu'r prif sylwadau a dderbyniwyd a'n hymateb iddynt.

Mae ein hymgysylltu yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgysylltu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*Carol Williams*

**Carol Y Williams**
**Rheolwraig Newidiadau Ardal**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk
comments@postoffice.co.uk
Ffôn: 03452 66 01 15
Ffôn testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments
**Dyma'r cyfan sydd angen i chi ei ychwanegu ar yr amlen er mwyn i'ch llythyr ein cyrraedd.**

Eisiau rhoi eich barn yn y fan a'r lle – sganiwch yma. Os nad oes gennych sganiwr QR ar eich ffôn, gallwch gael un yn eich storfa apiau

Mae eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, ac felly dylai ymatebion a ddanfonir trwy Radbost gael eu postio mewn digon amser i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgysylltu. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

# Manylion am y Gwasanaethau Symudol newydd:

| Gwasanaeth Symudol Talsarnau | Gwasanaethau |
|---|---|
| Y tu allan i Neuadd y Pentref<br>Talsarnau<br>Talsarnau<br>Gwynedd<br>LL47 6TA | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Sadwrn: 09:50 – 10:35 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

| Gwasanaeth Symudol Gellilydan | Gwasanaethau |
|---|---|
| Y Maes Parcio<br>Teras Minffordd<br>Gellilydan<br>Blaenau Ffestiniog<br>LL41 4EA | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Sadwrn: 09:00 – 09:30 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

| Gwasanaeth Symudol Clynnog Fawr | Gwasanaethau |
|---|---|
| Clynnog Fawr<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL54 5PB | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Sadwrn: 13:05 – 13:35 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

| **Gwasanaeth Symudol Garndolbenmaen** | **Gwasanaethau** |
|---|---|
| Y tu allan i Neuadd y Pentref<br>Garndolbenmaen<br>Gwynedd<br>LL51 9TX | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Dydd Sadwrn: 14:00 – 14:30 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

## Manylion am y Gwasanaeth Allgymorth a fydd yn cael ei gymryd drosodd gan y postfeistr o Fetws-y-coed

| **Gwasanaeth Allgymorth Trawsfynydd** | **Gwasanaethau** |
|---|---|
| Llys Ednowain<br>Trawsfynydd<br>Blaenau Ffestiniog<br>LL41 4UB | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen: 09:00 - 17:00<br>Sad: 09:00 - 13:00 | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad).** *Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviewsco.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn* **Ymgysylltu** *– pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd mewn lleoliad newydd
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol pan fydd newidiadau i'r leoliad man gwasanaeth Swyddfa'r Post
- Adleoli cangen pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli (e.e. problem gyda'r adeilad). Mae hyn er mwyn osgoi neu wneud yn llai tebygol colli gwasanaeth i gymuned lle cafodd lleoliad arall i gangen ei nodi[2] a lle nad oes unrhyw ddirywiad o ran cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post (wrth fynd i mewn i'r adeilad a'r tu mewn iddo).

Er y bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen wedi ei wneud eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid megis mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn. Rhoddwn bedair wythnos o rybudd, neu, os nad yw hynny'n bosibl, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y gallwn.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[3], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[4], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau cyrchu yn y gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff eirioli statudol annibynnol y defnyddwyr.***

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod eirioli priodol i ddefnyddwyr (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff eirioli i ddefnyddwyr yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk** **Ffon: 03452 66 01 15**
**Comments@postoffice.co.uk** **Ffôn testun: 03457 22 33 55**
**FREEPOST Your Comments**

Pan fo risg y gallai'r gwasanaeth gael ei golli , er mwyn osgoi neu ei wneud yn llai tebygol fod gwasanaeth i gymuned yn cael ei golli gall y bydd rhaid i ni wneud penderfyniad masnachol i adleoli cangen Swyddfa'r Post. Os felly, ni fyddwn yn ymgynghori ar adleoli, ond byddwn yn dilyn y broses ymgysylltu ac yn ceisio adborth ar drefniadau mynediad i'r adeilad a'r drefn y tu mewn.

[3] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Llywodraeth Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Plwyf neu Gymuned.

[4] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir pawb y cyfeirir atynt yn 3 a 4 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn nhw, fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.